

## Senedd Cymru

# Grŵp Trawsbleidiol ar Wyddoniaeth, Technoleg, Peirianeg, Mathemateg a Meddygaeth (STEMM)

Cyfarfod a gynhaliwyd am 18:30, Dydd Mawrth 12 Rhagfyr, drwy Zoom

### Nodiadau'r Cadeirydd

Yn bresennol: Mike Charlton, Leigh Jeffes, Jack Sargeant AS (Cadeirydd dros dro), Emily Wood (Ysgrifennydd dros dro), Dr Geertje van Keulen, Robert Hoyle, Dave Hardwood, Faron Moller, George Jameson, Joshua Bell, Mike Edmunds, Dr Peter Cotgreave, Keith Jones, Tom Addison, Dr Emma Yhnell, Mark Isherwood AS (Is-gadeirydd), Wendy Sadler.

#### **1) Croeso**

Croesawodd y Cadeirydd dros dro Jack Sargeant AS yr aelodau i'r cyfarfod gan gynnwys y siaradwyr Dr Yhnell, Dr Cotgreave a'r Athro Moller.

#### **2) Ymddiheuriadau am absenoldeb**

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Cerian Angharad, Megan O'Donnell, Peter Arnold, David Rees AS, Lewis Dean, Rhobert Lewis, Andrew Bellamy, Helen Taylor, Yr Athro Jas Pal Badyal, Niall Sommerville.

#### **3) Cofnodion y cyfarfod blaenorol a materion yn codi**

Nodwyd y cofnod blaenorol yn gwahodd Gweinidog yr Economi i gyfarfod yn y dyfodol, ac mae'r Ysgrifenyddiaeth yn bwrw ymlaen â hyn.

#### **4) Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant mewn STEMM**

Y prif faes i'w drafod oedd cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant mewn STEMM. Awgrymwyd y pwnc hwn yn ein cyfarfod blaenorol fel maes allweddol y dylai'r grŵp fod yn edrych arno. Clywodd y grŵp gan dri siaradwr:

- Dr Peter Cotgreave, Prif Weithredwr, Y Gymdeithas Microbioleg – bu Dr Cotgreave yn siarad am y mentrau cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant yn y Gymdeithas Microbioleg. Nodwyd heriau allweddol y maent yn eu hwynebu. Nodwyd bod amrywiaeth yn wahanol mewn gwahanol ddisgyblaethau a bod lefelau amrywiaeth yn arbennig o wael mewn haenau uwch o sefydliadau STEM/academaidd. Trafododd waith ei sefydliad i fynd i'r afael â materion cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant a gwaith eu “Panel Aelodau”
  - Nododd y Cadeirydd fod cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant da ar y grŵp hwn, ond nid yw'r gynrychiolaeth wleidyddol yn ddigon amrywiol a dywedodd fod hyn yn rhywbeth y dylai ef a'i gydweithwyr weithio arno.
  
- Dr Emma Yhnell, Prifysgol Caerdydd – Bwrdd Ecwiti mewn STEM – Siaradodd Dr Yhnell yn fyr am Fwrdd Ecwiti mewn STEM Llywodraeth Cymru y mae hi wedi ymuno ag ef yn ddiweddar, gan nodi mai ar ddydd Iau 14 Rhagfyr y mae'r cyfarfod nesaf, a'i bod yn hapus i roi'r wybodaeth ddiweddaraf yn dilyn y cyfarfod hwn.
  - Nododd y Cadeirydd y dylai'r grŵp trawsbleidiol wahodd Cadeirydd y bwrdd, Hannah Blythyn AS, i ddod i gyfarfod y grŵp trawsbleidiol yn y flwyddyn newydd.
  
- Yr Athro Faron Muller – Technocamps, Enillydd Gwobr UKRI 2022 am Gyfraniad Eithriadol i Ehangu Cyfranogiad, Amrywiaeth a Chynhwysiant mewn STEM – siaradodd yr Athro Muller am y gwaith a wnaeth i ennill gwobr UKRI ynghyd â'r gwaith parhaus arall wrth ymgysylltu â phobl ifanc mewn STEM.
  - Rhywedd a Daearyddiaeth, nododd adroddiad Nesta, Gwneuthurwyr Digidol Ifanc, a thrafododd y canfyddiadau hyn.
  - Technocamps mewn /rhifau. Siaradodd am yr ymgysylltiad y maent wedi'i gynnal â phobl ifanc, gan gefnogi'r ffaith bod y BBC newydd lansio Rhaglen Feicro a'u bod yn ceisio cael ysgolion ledled y DU sy'n gymwys i ymgysylltu. Mae gan Gymru dros 95% o ysgolion cymwys yn cymryd rhan yn y rhaglen hon, sy'n llawer uwch na rhanbarthau eraill.
  - Anfonodd y Cadeirydd ei longyfarchion i'r Athro ar y gwobrau y mae wedi'u hennill dros nifer o flynyddoedd yn ei waith.

## Cwestiynau gan yr aelodau

- Tom Addison: Gofynnodd sut y mae'r Athro Moller yn mynd â hyn at bobl ifanc yn hytrach na disgwyl i bobl ifanc fynd i ble mae'r gweithgareddau'n cael eu cynnal. Dywedodd yr Athro Moller fod llawer o'u gweithgareddau yn cael eu cynnal mewn ysgolion ledled Cymru. Hoffai gael ysgolion yn dod i'r brifysgol gan mai dyma'r tro cyntaf i ddisgyblion fynd ar y campws, ac roedd yn gweld hyn yn gyfle i blant ystyried y brifysgol fel opsiwn iddyn nhw.
- Ychwanegodd Dr Geertje van Keulen fod Technocamps hefyd yn dda iawn am gynnal sesiynau mewn gwyliau gwyddoniaeth, gan alluogi plant i gael profiad mewn hyfforddiant digidol.
- Gofynnodd Dr Geertje van Keulen gwestiwn i Dr Emma Yhell am y bwrdd yn cynghori ar wyddoniaeth ledled Cymru, a rhannodd Emma erthygl Wales Online <https://www.walesonline.co.uk/news/education/people-wales-least-well-qualified-28253139>
- Mae Wendy Sadler hefyd ar y Bwrdd a'r Is-grŵp Addysg ac wedi clywed gwaith gwych gan athrawon yn rhoi amrywiaeth ar waith yn eu gwaith cwricwlaidd.
- Gofynnodd Dr Emma Yhell i Peter am grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol sy'n gorfod cymryd y baich weithiau. Cydnabu Peter hyn, a dywedodd na ellir dibynnu ar nifer fach o bobl yn gwneud y gwaith hwn neu byddwch yn y pen draw yn cael yr un bobl yn gwneud yr holl waith. Nid oes rhaid i unrhyw un fod ar eu Panel Aelodau, mater i'r unigolyn ydyw os yw'n teimlo nad yw llais ei gymuned yn cael ei glywed. Yr unig beth anghywir i'w ddweud yw dim byd o gwbl.
- Dave Harwood: Faint o waith y mae pobl yn dal i'w wneud i hyrwyddo'r grwpiau lleiafrifol a gwarchodedig sydd eisoes mewn STEM? O ran mynd i'r afael â rhagfarn sydd eisoes yn bodoli.
- Dywedodd Wendy fod llawer o waith yn y sector prifysgolion i fynd i'r afael â'r rhagfarnau hynny, megis hyfforddiant gorfodol, ac mae Prifysgol Caerdydd yn mynd ati'n rhagweithiol i fod yn sefydliad gwrth-hiliaeth yn hytrach na mynd i'r afael â'r materion wrth iddynt godi.

- Dywedodd y Cadeirydd ei fod yn teimlo y gallwn bob amser wneud mwy, yn enwedig o ran cynrychiolaeth aelodaeth wleidyddol.

Dywedodd Dr Geertje van Keulen fod hyfforddiant yn bwysig i bobl o grwpiau a dangynrychiolir, ac y gallai hynny helpu pobl i gamu i rolau uwch.

## 5) Diweddariad gan Swyddfa Gwyddoniaeth Llywodraeth Cymru

Cyflwynwyd Robert Hoyle o Swyddfa Gwyddoniaeth Llywodraeth Cymru i siarad yn fyr am unrhyw ddiweddariadau pwysig ar eu gwaith.

- Mae Jas Pal wedi cwblhau ei daith o amgylch yr wyth prifysgol ac mae wedi bod yn ddiddorol. Roedd wedi chwilio am ymchwil arweiniol ar draws y byd. Sylwodd ar nifer o feysydd o bwys arbennig o fewn y gymuned ymchwil, ac mae bellach yn cynnal dadansoddiad clwstwr. Mae Llywodraeth y DU yn mynd i fod yn rhoi cyllid ar draws clystyrau ledled y DU, ac felly maent yn edrych ar dechnoleg amaeth, niwclear, a meysydd eraill. Roedd yn ystyried lle mae ganddyn nhw gryfder diwydiannol sy'n cydfynd â chryfderau ymchwil.
- Siarad am Adolygiad Nyrsys: mae tystiolaeth yn bodoli ni waeth pa blaid fydd yn ennill yr etholiad nesaf, a gobeithio y bydd rhywfaint o'r gwaith y maent yn ei wneud o ddiddordeb i sefydliadau cenedlaethol.
- Cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant: Pan ofynnwyd y cwestiynau am gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant wrth ymweld â phrifysgolion, roedd gan nifer o'r prifysgolion lai na 30% o fenywod ac nid yw hyn yn ddigon da, er bod gan y sefydliadau hyn bolisiau cydraddoldeb rhwng y rhywiau, ac roedd yn destun pryder bod rhai sefydliadau y tu ôl i'r bolisiau hyn, gyda rhai gwersi i'w dysgu.
- Mae Jas Pal bellach yn ymweld ag ysgolion ledled Cymru.
- Nodwyd eu bod yn wynebu cyfnod heriol yn y gyllideb. Diolchodd Jack i Robert, a nododd eu bod yn ymwybodol o sefyllfa'r gyllideb.

## 6) Diweddariad gan gyrrff proffesiynol a chymdeithasau dysgedig

- Tom Addison: Cyhoeddodd y Gymdeithas waith ar strategaeth gwydnwch yn y gwres: [Developing a Human-centred Heat Resilience Strategy - The Physiological Society \(physoc.org\)](#)

Keith Jones ICE: Email has asked for link to be sent (Emily has emailed Keith for this)

Mae Dr Geetje yn nodi bod y gymdeithas microbioleg wedi cyflwyno tystiolaeth i GIG Lloegr ar AMR a phresgripsiynau (I think it was this? [The Antimicrobial Products Subscription Model: consultation on proposals - NHS England - Citizen Space](#)? Not essential but of interest, Emily will follow up if needed,

Mike Charlton: Gwaith REF: yn dangos effaith Cymru a sut mae Cymru yn gwneud yn well nag y byddai disgwyl yn y maes hwn. Asked Mike to send Niall link (Mike is sending this on Friday)

Nododd Leigh fod digwyddiad 'Gwyddoniaeth a'r Senedd' ar 21 Mai, bydd Leigh yn ysgrifennu am hyn ym mis Ionawr.

## 7) Unrhyw fater arall

- Wendy: O ran Gwyddoniaeth a'r Senedd, a oes galwad agored i gyflwyno syniadau am bynciau a siaradwyr, gan ei bod yn teimlo y dylai hyn fod yn fwy tryloyw/cynhwysol. Awgrymodd y Cadeirydd fod pobl yn cysylltu â Niall.

**Daeth y cyfarfod i ben.**